Adnabod Awdur

Catherine Aran

Mewn bwthyn cerrig, wrth droed mynyddoedd Eryri, ym Methesda, yr ydw i'n byw efo Gary, fy ngŵr o Lundain sy'n gyrru tryciau, dau fab o'r enw Jac a Rhys, a hen gi â chlustiau rhy fawr o'r enw Boni.

Mae ein stryd yn un gul, a fedrwch chi ddim gyrru car heibio'r deuddeg o dai sydd yma, felly mae pawb yn adnabod pawb ac yn aml yn rhannu coffi, siwgr a sgwrs. Mae hyn yn golygu bod ein tŷ ni yn orlawn o bobl o bob oed yn aml, a digon o straeon i ddiddanu pawb drwy'r nos!!

Fy mhrif waith ydi adrodd straeon a chynnal gweithdai stori fel Cyfarwydd, felly byddaf yn darllen a chwilio am chwedlau i'w hadrodd drwy'r amser ac yn eu dysgu ar fy nghof gan weithio ar y ffordd orau i gyflwyno'r stori drwy ddefnyddio ystum corff, wyneb a llais. Yna byddaf yn teithio o amgylch ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau cymdeithasol a gwyliau celfyddydol yn adrodd straeon.

Yn ystod yr adegau tawel y bydda i'n ysgrifennu, pan fydd y plant yn eu gwelyau, Gary yn ei waith a'r sêr yn disgleirio. Yr adeg hynny y daw'r tylwyth teg, y cewri a'r gwrachod allan i chwarae!

2008 Lluniau: Arvid Parry Jones

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
LLYFRAU AR-LEIN BOOKS ON-LINE

Blwyddyn Darllen GENEDLAETHOL
2008
NATIONAL Year OF Reading

Adnabod Awdur

Catherine Aran

Dyddiad Geni: 17 Ebrill 1966

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Mi ges i 'ngeni ym Mangor, ond fy magu ar hyd ac ar led gogledd Cymru.

Ble cawsoch chi eich addysg? Yn Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych; Ysgol Llanfairpwll; Ysgol David Hughes, Porthaethwy; Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam ac Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy; wedyn ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roeddwn yn hoffi'r hwyl ond yn casáu gwaith cartref a rhedeg.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Yn actores fyd-enwog o'r enw Audrey Hepburn!

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?
Llyfrau ***Famous Five*** gan Enid Blyton.

Beth yw eich hoff ddiddordebau?
Rwy'n hoffi treulio amser gyda'r teulu yn chwarae, yn cymryd arnom ein bod yn sêr y byd roc, neu'n creu pethau allan o gerdyn i addurno'r gegin, a siarad yn ddi-baid efo ffrindiau.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Teulu a ffrindiau.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Annhegwch a phobl hunanbwysig.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?
Pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf?
Idris y Cawr gan Wasg Gwynedd.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?
Pan fydda i'n teimlo fel ysgrifennu, mae'n hawdd, ond os ydw i'n teimlo fel gwneud rhywbeth arall, mae'n anodd canolbwyntio.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Fel Cyfarwydd neu Ddynas Dweud Stori, rydw i'n dysgu nifer fawr o chwedlau ac mae'r patrwm yn dod oddi wrthyn nhw, fel arfer.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Darllenwch bob dim dan haul a chadwch eich llygaid a'ch clustiau ar agor. Mae rhywbeth bychan iawn yn medru sbarduno stori!

Pa un yw eich hoff lyfr? ***Wuthering Heights*** gan Emily Brontë

Pa un yw eich hoff gymeriad? Yr Artful Dodger yn ***Oliver Twist*** gan Charles Dickens, mae'n debyg iawn i 'ngŵr!

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Fy mol a'r ffaith ei fod o mor hoff o siocled!

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?
Dydw i ddim yn gwylio llawer o deledu gan fod fy meibion, Jac a Rhys, a, ngŵr, Gary, wastad yn hawlio'r 'remote', ond dwi'n hoffi ffilmiau'n fawr.

Beth yw eich hoff fwyd? Chwadan ym mwyty Amser Da, Llanrwst.

Beth yw eich hoff le yn y byd? Adra o flaen y tân.

Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall? Medal fechan oedd gan fy nhaid, John Morris, Nantycnidiw, oedd yn hongian wrth dsiaen ei oriawr boced.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Fy nheulu, maen nhw'n boncyrs!

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru? 'Rargian, nac oes!

Llyfrau gan Catherine Aran:

Idris y Cawr £3.95
Ganthrig Bwt y Wrach £3.95
Tywysoges y Tŵr £4.95
(Gwasg Gwynedd)